South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Strategaeth Gyfathrebu

Mae'r Consortiwm yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu da ac amserol. Bydd strategaeth gyfathrebu glir a chadarn a gymhwysir yn gyson yn cefnogi gweithrediad Cynllun Gwaith Strategol Dros Dro'r Consortiwm. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o gynnydd tuag at gamau gweithredu ac allbynnau a bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hystyried. Rhagwelir y bydd y Strategaeth Gyfathrebu'n cynnwys nifer o linynnau fel a ganlyn:

Pwy: **Pawb**	Sut: **Bwletin y Consortiwm**	Beth: **Gwybodaeth Gyffredinol**
Bydd bwletin y consortiwm yn cael ei gynhyrchu'n rheolaidd gan y Tîm Trefnu a Datblygu. Bydd gan hyn gynulleidfa darged eang, a bydd yn cael ei e-bostio at bob aelod o Grŵp y Cyfarwyddwyr, y Grŵp Strategol, Grŵp y Penaethiaid ac ysgolion, Grwpiau Sefydlog a Grwpiau Tasg a Gorffen, Cydlynydd Rhanbarthol Creu'r Cysylltiadau, y Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill. Bydd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol ddiweddar ynghylch cynnydd tuag at dargedau, gwaith consortiwm, cysylltiadau defnyddiol ac eitemau newyddion.		

Pwy: **Pawb**	Sut: **Gwefan y Consortiwm**	Beth: **Gwybodaeth Gyffredinol**
Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ddiweddar am waith y consortiwm sydd ar gael unrhyw bryd.		

Pwy: **Aelodau Grwpiau'r Consortiwm**	Sut: **Cyfarfodydd a sianeli cyfathrebu arferol yr ALl**	Beth: **Gwybodaeth Gyffredinol a Phenodol**
Bydd holl aelodau grwpiau'r consortiwm yn gweithredu fel sianel i wybodaeth lifo rhwng eu grwpiau a'r Awdurdod. Amlinellir hyn yng nghylch gorchwyl pob grŵp.		

Pwy: **Y Tîm Trefnu a Datblygu**	Sut**: Adroddiadau, cyfarfodydd a sianeli cyfathrebu arferol**	Beth: **Gwybodaeth Gyffredinol a Phenodol**
Bydd y tîm hwn yn hwyluso grwpiau, yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd bob mis i Gydlynydd y Consortiwm. Bydd hwyluswyr yn cysylltu â'u cyswllt â'r Grŵp Strategol. Bydd y Cydlynydd yn adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Strategol a Grŵp y Penaethiaid. Bydd y tîm yn gweithredu fel sianel ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau'r consortiwm a'r Grŵp Strategol. Bydd hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth gyffredinol yn cael ei darparu ar gyfer y gynulleidfa ehangach drwy'r bwletin a'r wefan.		

Pwy: **Grŵp y Penaethiaid**	Sut: **Cyfarfodydd a sianeli cyfathrebu arferol**	Beth: **Gwybodaeth Gyffredinol a Phenodol**
Bydd y grŵp hwn yn derbyn adroddiadau cynnydd gan Gydlynydd y Consortiwm a swyddog cyswllt y Grŵp Strategol. Bydd yn gweithredu fel fforwm ymgynghorol ar gyfer gwaith y consortiwm o safbwynt ysgolion ac yn darparu cefnogaeth a her adeiladol. Bydd yn sianel gyfathrebu rhwng y Consortiwm ac ysgolion.		

Pwy: **Grŵp Strategol**	Sut: **Adroddiadau, cyfarfodydd a sianeli cyfathrebu arferol**	Beth: **Gwybodaeth Benodol**
Bydd y grŵp hwn yn derbyn adroddiadau cynnydd a gwybodaeth bob mis gan Gydlynydd y Consortiwm. Bydd aelod cyswllt enwebedig y grŵp strategol hyn yn cynnal cysylltiadau agos â'r hwyluswr. Bydd aelodau'r grŵp yn gweithredu fel sianel ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch gwaith y consortiwm rhyngddynt a'u hawdurdodau. Bydd y grŵp yn adrodd am gynnydd ac yn amlygu materion i Grŵp y Cyfarwyddwyr. Bydd yn rhoi adborth i'w maes gwasanaeth, eu Cyfarwyddwr Adrannol ac Uwch Dimau Rheoli.		

Pwy: **Grŵp y Cyfarwyddwyr**	Sut: **Adroddiadau, cyfarfodydd a sianeli cyfathrebu arferol**	Beth: **Penodol**
Bydd cyfarwyddwyr yn derbyn adroddiadau gan y Grŵp Strategol a'r Cydlynydd ac yn adrodd i Grŵp yr Aelodau Etholedig, y Bwrdd Rhanbarthol a'u Timau Rheoli Corfforaethol.		

Pwy: **Bwrdd Rhanbarthol**	Sut: **Adroddiadau a chyfarfodydd**	Beth: **Penodol**
Bydd y bwrdd hwn yn derbyn adroddiadau cynnydd gan Grŵp y Cyfarwyddwyr, y Grŵp Strategol a Chydlynydd y Consortiwm yn ôl yr angen.		